Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cyfarfod Pwyllgor Cyllid
25 Ionawr 2022

Presennol: G.C. Jones (Cadeirydd); A. Mummery; J. Roberts; R. M. Jones; I. Griffiths; A. Jones; G.Parry, S. Edwards.
Anwen Le Cras (Clerc)

		Gweithred	**Dyddiad**
1.0	**Ymddiheuriadau:** Gillian Morris - Clerc		
2.0	**Paratoi Cyllideb 2022 / 2023** Adroddwyd gan y Clerc y bydd oddeutu £60,000 yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ym Mawrth 2022. Ystyriwyd y ceisiadau gan y pwyllgorau am wariant i adeiladau ac offer y Cyngor Bro yn y flwyddyn ariannol2022 -2033. Cytunwyd i wariant ychwanegol - Adnewyddu toeau'r pafiliwn, clwb bowlio a cwt y gofalwr (arian benthyg gan PWLB Rhagfyr 2021 wedi'i glustnodi i'r gwaith yma). Adnewyddu giât y clwb bowlio. Adnewyddu ffenestri a drysau allanol y Gorlan. Datblygu maes parcio'r Gors i safle talu ac arddangos. Nodwyd bod hefyd swm o £7,500 wedi'i ddal yn ôl, i'w dalu i THW Construction - adeiladwr y Neuadd Goffa ym mis Mehefin. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2022/23 = £95,661		
3.0	**Cytuno Preseb 2022 /2023** Cytunwyd i ofyn i'r Cyngor Sir am Breseb o £60,000	Clerc	
4.0	**Cyfrif Banc -** Cytunwyd eisoes symud cyfrif banc i Nat West. Cadarnhawyd y penderfyniad a cytunwyd i awdurdodi llofnodwyr Gareth C Jones, A. Mummery, O.A. Jones a Gillian Morris. Bancio ar lein - Gillian Morris i gael yr hawl i weithredu ar lein a gyda cherdyn debyd.	Clerc i agor cyfrif banc yn Nat West	
5.0	**Rhestr Asedau -** cytunwyd i adolygu'r rhestr asedau yn ystod 2022/2023. Gofyn I gynghorau Cymuned eraill am enghreifftiau.	Clerc/Pwyllgor Cyllid	

Dyddiad Cyfarfod Nesaf – Nos Fawrth 12 Ebrill 7.00yh.